



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwella cynhyrchiant eich busnes

A yw eich busnes yn ceisio gwella cynhyrchiant drwy well prosesau a chynnyrch gwell? Mae ein cymorth di-dâl yn cynnig dull ymarferol, hyblyg o helpu i gynllunio a pharatoi ar gyfer y Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol ac yn sicrhau bod prosesau'n addas at y dyfodol.

Mae cymorth ar gyfer Cynhyrchiant SMART ar gael am ddim i fusnesau yng Nghymru, wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru a'i gefnogi gan gyllidebau yr UE.

Bydd arbenigwyr yn gweithio gyda chi i gynllunio cynhyrchiant a chynllunio gwelliannau a hefyd i'ch helpu i wneud y newidiadau sydd eu hangen.

Gallai'r camau yr ydych yn eu cymryd i wella pherfformiad eich busnes gynnwys:

- Gwelliant parhaus a dulliau darbodus
- Trefniant y gweithle gan gynnwys ffurf a chynllun prosesau
- Dulliau a thechnolegau gweithgynhyrchu newydd ac arloesol
- Dylunio cynnyrch gan gynnwys deunyddiau, dyluniad ar gyfer gweithgynhyrchu, pacio, ac eco-ddyluniad
- Prosesau dylunio
- Prototeipio Cyflym
- Cynllunio cynaliadwy gan gynnwys defnyddio adnoddau'n effeithiol, defnyddio ynni yn effeithiol a rheoli gwastraff

"Mae golwg lled braich ar y busnes a'i brosesau bob amser yn bwysig inni, a dyma arbenigedd yr ymgynghorydd Cynhyrchiant SMART. Roedd ei wybodaeth o'r diwydiant gweithgynhyrchu yn galluogi iddo ofyn 'ydych chi wedi ystyried hyn?' gan gynnig rhywbeth o werth, yn hytrach nag argymhellion na fyddai'n gweithio inni.

"Mae'r argymhellion a wnaethpwyd yn ein adroddiad Cynhyrchiant SMART wedi gwneud gwahaniaeth real a gwirioneddol i'n busnes, allai fod wedi cymryd llawer mwy o amser pe byddem wedi gwneud hyn ein hunain gan ein bod wedi arfer cymaint gyda'n swyddogaethau o ddydd i ddydd."

Stuart Cheetham

Rheolwr Gwerthiant y DU yn Ruth Lee Ltd

"Er bod y cynnydd mewn cynhyrchiant yn amlwg o fudd mawr i'r cwmni, yr hyn a sylwais arno oedd y cysylltiad gwell gyda dadansoddwyr y labordai, felly rydym wedi gallu dileu rhai tasgau oedd yn cael eu gwneud â llaw diolch i'r prosesau newydd."

"Roedd ein hymgyngorydd yn wybodus iawn am ein maes; cymerodd yr amser i edrych ar y busnes a'i ddeall heb ymyrryd yn ormodol a gwneud argymhellion cadarn yn seiliedig ar ei gwybodaeth o offer a dulliau o weithio sy'n bodoli eisoes."

Rachel Williams

Rheolwr Labordai yn Lextox

**Busnes | Business
Cymru | Wales**

Am ragor o wybodaeth ar sut y gall y pecyn hwn o gymorth helpu eich busnes cysylltwch â Llinell Gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000 neu ewch i'r parth Arloesi.
businesswales.gov.wales/innovation/cy



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

arloesi